Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29 ain Dachwedd 2014

Presennol – Hefin Edwards Cadeirydd, Alun Jones, Menai Hughes, Prys Ellis, Peter Lewis Cyng Sir, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Guto G Jones, Einion Edwards, Helen Ellis, John D Jones, Ieuan Jones.

Cofnodion. Cadarnhawyd y cofnodion a gynhaliwyd ar y 27/10/2014.

Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu
Croesawyd Aimie Clayton i'r cyfarfod a cafwyd amlinelliad o'r sefyllfa ddiweddara yn yr ardal fel a ganlyn
[a] Bod diesel wedi ei ddwyn yn ddiweddar
[b] Ymchwiliad yn parhau i'r defaid sydd ar goll o fferm gyfagos.
[c] Bod gyrru afresymol yn yr ardal wedi ei dynnu i sylw'r heddlu.

[1.1] Dyfodol y Llyfrgell
Nodwyd bod y llyfrgell yn cael ei hagor yn swyddogol gan Bethan Gwanas ar y 12eg Ragfyr am 3.00 y prynhawn.

[1.2] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Trefnu ar gyfer Argyfwng/Ms Heidi Dobbs.
Eglurodd y Cyng. Peter Lewis ei fod yn parhau gydag ymholiadau.

[1.4] Cae Chwarae Ty'n y Felin/ Gosod Goliau
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.5] Goleuadau/Maes y Ffynnon
Deallwyd bod y goleuadau wedi eu gosod ond nad ydynt yn hollol foddhaol.
Yn dilyn ymeliad ar safle gan Alun Jones a'r clerc, penderfynwyd i geisio costau am oleuadau ychwanegol.

[1.6] Gwasanaeth Iechyd
Y clerc i yrru pryderon ynglyn a'r gwasanaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ymlaen i Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

[1.7] Cattle Grid Ffordd Brenig ar Gyffordd ger y Sportmans Arms
Nodwyd ateb gan Gyngor Sir Ddinbych nad oedd pryderon ynglyn a chyflwr y grid.

Y brif agenda

[1.8] Cadeiriau
Penderfynwyd rhoi'r hen gadeiriau ar werth fel a ganlyn
[a] Cadeiriau derw £5.00 y gadair
[b] Cadeiriau eraill [y gweddill] £1.00 y gadair.

[1.8] Materion Cynllunio
Nodwyd y wybodaeth ynglŷn â phrosiect Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru.

[1.9] Cynllun Datblygu Gwledig Cymru
Nodwyd y ddogfen gan Hazel Barclay, Swyddog Cyfathrebu a Marchnata, Cynllun Datblygu Gwledig Conwy.

[2] Cyfraniad
Cyfeiriodd y clerc at lythyrau o ddiolch oddiwrth
[a] Y Gorlan
[b] Elusen Addysgol

[2.1] Taliadau
Ceir Cymru/Petrol i'r Peiriant Torri Gwair 100719 £35.57
Tŷ/Cadeiriau/Byrddau 100721 £2159.28
Brenda Jones Wreath Sul y Cofio 100722 £17.00

Yn y banc 29/11/14 Cyfrif [1] £5917.22
Cyfrif [2] £1583.84

Cadeirydd_____